

Cyfeirnod: IR751

Dyddiad cyhoeddi: 18 Awst 2020

Dyfarniad Cyflog 2020-21

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod dyddiedig 22 Mehefin 2020 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth am y dyfarniad cyflog ar gyfer 2020-21.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

- 1. Nodwch y dyddiad (dydd, mis a blwyddyn) y daw adolygiad cyflog 2020/21 eich sefydliad i rym.**
22 Gorffennaf 2020
- 2. Os nad yw adolygiad cyflog 2020/21 wedi'i gwblhau eto, nodwch ym mha fis yr ydych yn rhagweld y caiff ei gwblhau.**
Amherthnasol.
- 3. Nodwch y grŵp/grwpiau cyflogeion a gwmpesir gan adolygiad cyflog 2020/21.**
Pob cyflogai.
- 4. Nodwch gyfanswm nifer y cyflogeion a gwmpesir gan adolygiad cyflog 2020/21.**
Tua 260.
- 5. Rhowch gopi o'ch cytundeb cyflogau ar gyfer 2020/21 (os yw'n berthnasol) neu gylchlythyr cyflog generig a anfonwyd at gyflogeion (hynny yw un nad yw'n datgelu unrhyw gyflogai unigol) yn amlinellu canlyniad yr adolygiad cyflog diweddaraf os nad oes trafodaethau ar y cyd.**

Fe wnaethom hysbysu cyflogeion drwy e-bost fod pleidlais ymysg aelodau undebau wedi cefnogi'r cynnig cyflog a amlinellwyd ar fewnrwyd Archwilio Cymru fel y nodir yn y dyfyniad isod:

- Cynnydd o 2.5% i bob pwynt cyflog gan ddod i rym ar unwaith;
- Bydd y cynnydd yn cael ei ôl-dyddio i 1 Mai 2020 (fel y bo'n berthnasol) ar gyfer staff sydd yn eu swydd ar 22 Gorffennaf 2020 (y dyddiad y gwnaed y cynnig i'r undebau);
- Bydd y band cyflog Technegwyr a Lleoliadau Gwaith yn dod yn un pwynt penodol o £18,570, sef brig y band presennol ynghyd â 2.5%. Caiff hyn ei ôl-dyddio i 1 Mai (fel y bo'n berthnasol) ar gyfer staff sydd yn eu swydd ar 22 Gorffennaf 2020. Y cyflog byw gwirioneddol cyfatebol yw £16,926;
- Cadarnhad yn ôl y polisi Adnoddau Dynol, mai dim ond ar ôl i'r holl gyfleoedd adleoli ac ailhyfforddi rhesymol eraill gael eu dihysbyddu y bydd dileu swyddi'n orfodol byth yn opsiwn;

- Bydd y rheolwyr a'r undebau'n adolygu'r cytundeb cyflog ym mis Ionawr 2021 yng nghyd-destun unrhyw newidiadau sylweddol i bolisi cyflogau sector cyhoeddus Llywodraeth y DU neu unrhyw gynnydd sylweddol mewn chwyddiant.

6. A gwblhawyd yr adolygiad cyflog diweddaraf o dan gylch gwaith Canllawiau Cyflog y Gwasanaeth Sifil 2020/21?

Amherthnasol.

7. Nodwch y % o godiadau cyflog sylfaenol cyfunol a dderbyniwyd gan yr oedolyn (18 oed a throsodd) sydd â'r cyflog isaf o ganlyniad i'r adolygiad cyflog diweddaraf, ac eithrio effaith unrhyw godiadau cynyddrannol, tâl teilyngdod a bonysau.

13.4% (newid strwythurol o fewn y band cyflog Lleoliadau Gwaith, gweler yr ymateb i C5 uchod)

8. Rhestrwch y graddau a'r cyfraddau cyflog cyfredol ynghyd â graddau a chyfraddau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y rolau isod neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt os yw'n berthnasol:

- a) Cynorthwy-ydd Gweinyddol (AA)
- b) Swyddog Gweinyddol (AO)
- c) Swyddog Gweithredol (EO)
- d) Swyddog Gweithredol Uwch (HEO)
- e) Uwch Swyddog Gweithredol (SEO)
- f) Gradd 6
- g) Gradd 7

Nid yw ein graddau cyflog yn trosglwyddo i rolau'r Gwasanaeth Sifil uchod. Mae gwybodaeth am ein graddfeydd cyflog ar gael ar ein gwefan yn: <https://www.audit.wales/cy/https%3A/audit.wales/cy/swyddi/gweithio-inni>

9. Os penderfynir ar ddyfarniad cyflog blynyddol cyflogai yn ôl asesiad o'i berfformiad unigol yn unig (a elwir yn gyffredin yn gynnydd teilyngdod) yn hytrach na chynnydd cyffredinol mewn cyflogau (lle mae pob cyflogai yn gyffredinol yn cael yr un cynnydd beth bynnag fo'i berfformiad unigol) nodwch ganran y bil cyflogau a ddyrennir i ariannu'r dyfarniadau hyn, ystod y codiadau ac a yw'r dyfarniadau wedi'u cydgrynhoi ai peidio.

Amherthnasol.

10. Os oedd unrhyw gyflogeion yn gymwys i gael taliadau neu fonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad unigol yn ychwanegol at y codiad cyflog cyffredinol, nodwch yr ystod o godiadau (naill ai fel canran o'u cyflog sylfaenol neu swm arian parod fel y bo'n berthnasol), p'un a oeddent wedi'u cydgrynhoi i gyflog sylfaenol ai peidio a nodwch % cyffredinol y bil cyflogau a ddyrannwyd i ariannu'r dyfarniadau hyn.

Amherthnasol.

11. Nodwch y cynnydd cyffredinol yn y bil cyflogau o ganlyniad i'r adolygiad cyflog diweddaraf, wedi'i fynegi fel canran o'r bil cyflogau. 2% yn 2020-21

12. A oes unrhyw newidiadau eraill wedi'u gwneud i delerau ac amodau (er enghraifft hawl i wyliau, darpariaeth tâl salwch a thebyg) fel rhan o'r adolygiad cyflog diweddaraf? Os oes, nodwch beth ydynt.

Nid oes unrhyw newidiadau eraill wedi'u gwneud.

13. Nodwch enw'r undeb/undebau sy'n barti i'ch prif gytundeb cyfunol sy'n ymdrin â thâl ac amodau os oes trafodaethau ar y cyd.

Prospect a PCS

14. Rhowch enw a manylion cyswllt yr unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am oruchwylio adolygiad cyflog blynyddol eich sefydliad.

Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol,
steven.o'donoghue@audit.cymru

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am fy ffordd o ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Cofion cynnes

Swyddog Gwybodaeth